

## Taflen Ffeithiau 7: Defnyddio Asiantaethau

Efallai y byddwch chi eisiau defnyddio gwasanaethau asiantaeth gofal i ddarparu eich cefnogaeth. Os byddwch chi'n dewis defnyddio asiantaeth, yr arfer yw y staff sy'n gweithio gyda chi yn cael eu cyflogi gan yr asiantaeth. Mewn achos fel hyn, nid chi fydd y cyflogwr, a'r asiantaeth fydd yn gyfrifol am reoli'r staff a thalu eu cyflogau. Byddwch dal i wneud penderfyniadau a rheoli gan y byddwch yn gwneud trefniadau'n uniongyrchol gyda nhw a byddwch yn gallu dweud sut, pryd a ble y bydd y gefnogaeth rydych wedi'i gytuno yn cael ei ddarparu.

Mae'n rhaid i asiantaethau sy'n darparu gofal personol, yn ôl y gyfraith, gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal (Lloegr). Gallwch ofyn i staff asiantaeth ddangos manylion y cofrestriad.

Gallwch gael cymaint o gefnogaeth ag rydych ei angen i wneud y trefniadau yma.

Cyn i chi benderfynu prynu gwasanaeth gan asiantaeth benodol, rydym yn argymhell eich bod yn:

- Gofyn ynglŷn â'u cofrestriad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, neu Gomisiwn Ansawdd Gofal Lloegr
- Gofyn am gael gweld copi o'u polisi yswiriant
- Gofyn i'r asiantaeth os ydi pob aelod staff wedi cael Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gofyn i'r asiantaeth sut mae'n rheoli ei staff a pha mor aml fydd rhywun yn dod i wirio pa mor fodlon ydych chi gyda'r gwasanaeth
- Gofyn sut y byddent yn delio ag unrhyw gŵyn sydd gennych chi gyda gwasanaeth yr asiantaeth
- Gofyn sut maent yn trefnu staff dros gyfnodau o wyliau neu dros absenoldeb oherwydd salwch ac os bydd aelod o'r asiantaeth yn trafod hyn gyda chi pan fo angen staff i weithio yn lle staff rheolaidd.
- Gofyn pa hyfforddiant y mae'r asiantaeth yn ei ddarparu i'w staff a pha gymwysterau a phrofiad sydd ganddynt.
- Gofyn sut allwch chi ddweud wrthynt nad ydych yn hapus gyda'u gwasanaeth?
- Gofyn a ydynt yn cynnal asesiadau risg i chi a'r staff
- Gofyn a fyddant yn derbyn copïau o'r oriau y mae pobl wedi'u gweithio er mwyn i chi dalu'r swm cywir; a
  - Gofyn a fyddwch chi'n cael eich cefnogi gan yr un bobl
  - Gofyn faint fydd y gost am eu gwasanaeth

Os bydd yr asiantaeth yn dweud wrthyich na fyddant yn gallu parhau i ddarparu gofal i chi, cysylltwch â Chyngor Sir y Fflint a gofynnwch i gael siarad gyda'r tîm ar ddyletswydd cyn gynted â phosibl.

Dyma rywfaint o fanylion am bobl a sefydliadau allai eich helpu:

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, Cyngor Sir y Fflint: 01352 803444

Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, Cyngor Sir y Fflint: 01352 701000

### **Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol**

**Rhif ffôn:** 01352 701100

**E-bost:** [dp.support@flintshire.gov.uk](mailto:dp.support@flintshire.gov.uk)